



Teitl: Title:	Polisi Apêl Academaidd / Academic Appeals Policy
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Students

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Academic Appeals Policy - IA Stage 1
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	Pennaeth Ansawdd / Head of Quality		
Ymgynghoriad / Consultation:			
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group		
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:		08/12/21
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
Corff Llywodraethu / Governing Body:		-	
Dyddiad Adolygu: Review Date:	08/12/24		

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r [Ffurflen Cais Cyfieithu](#)
Send approved document for Translation using the [Translation Request Form](#)

Tabl Cynnwys

Polisi Apêl Academaidd

1. Cyflwyniad	2
2. Proses Apelio i Fyfyrwyr - Gwaith Cwrs a Asesir yn Fewnol	2
3. Proses Apelio i Fyfyrwyr [Cyhoeddiad Ôl Corff Dyfarnu]	3
4. Proses Apelio i Fyfyrwyr [Covid]	3
5. Proses Apelio i Fyfyrwyr - Canllawiau i Fyfyrwyr	4
6. Ffurflen apelio i'w chwblhau gan y coleg	4
7. Dolenni	4

Polisi Apêl Academaidd

1. Cyflwyniad

- 1.1. Polisiâu eraill sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn:
 - 1.1.1. Polisi Arholiadau.
 - 1.1.2. Polisi Asesiad dan Reolaeth.
 - 1.1.3. Polisi Apeliadau Mewnol.
- 1.2. Mae'r polisi apeliadau hwn yn unol â
 - 1.2.1. [chanllawiau JCQ ar werthuso marcio \(marciau a asesir gan y ganolfan\)](#) a [Chanllawiau JCQ](#) ar broses apelio'r cyrff dyfarnu.
- 1.3. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod:
 - 1.3.1. Gan bob myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau asesu mewnol a chyrchu'r broses apelio.
 - 1.3.2. Gweithdrefn glir ar gyfer ymgeiswyr sydd yn ymholi ynghylch eu canlyniadau.
 - 1.3.3. Gweithdrefn glir ar gyfer ymdrin â sefyllfa o anghytuno pan fo ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad y ganolfan, fel bod modd datrys y ddadl yn agored ac yn effeithlon trwy broses annibynnol ffurfiol.
 - 1.3.4. Cofnod o bob ymholiad ynghylch asesiadau ar gyfer prosesau sicrhau ansawdd mewnol, sy'n bodloni anghenion Cod Ymarfer cyrff dyfarnu sydd ar gael ar wefannau'r Awdurdodau Rheoleiddio¹.

2. Proses Apelio i Fyfyriwr [Gwaith Cwrs a Asesir yn Fewnol]

- 2.1. Yn unol â chanllawiau JCQ, mae gan ddysgwyr yr hawl i wybod canlyniadau eu hasesiad dan reolaeth mewnol ac mae ganddynt yr hawl i adolygu'r marciau hyn cyn i'r coleg eu cyflwyno i'r cyrff dyfarnu.
- 2.2. Mae hi'n rhesymol felly awgrymu bod rhaid cwblhau pob asesiad dan reolaeth, eu safoni, a rhoi gwybod i'r myfyriwr am eu marciau o leiaf 10 diwrnod cyn dyddiad cau cyflwyno marciau allanol i gyrff dyfarnu.
- 2.3. Ar ôl iddynt gael gwybod eu marciau, mae gan ddysgwyr 3 diwrnod gwaith i apelio yn eu herbyn. Mae'n rhaid i'r holl ddysgwyr allu cael gafael ar gopi o'u gwaith a gafodd ei farcio, y fanyleb berthnasol a phob dogfen bwnc penodol cysylltiedig i'w cynorthwyo i benderfynu a ydynt yn dymuno apelio.
- 2.4. Bydd angen i'r myfyriwr anfon e-bost at y tiwtor os ydynt yn dymuno apelio, gan amlinellu pam eu bod yn teimlo eu bod wedi bodloni meini prawf yr asesiad y tu hwnt i'r marciau a ddyrannwyd. Bydd yr athro pwnc yn rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cwricwlwm yn brydlon (ar yr un diwrnod gwaith, os yn bosib) o'r angen i drefnu apêl.
- 2.5. Bryd hynny mae gan y Coleg o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno marciau allanol i sicrhau bod y gwaith wedi ei ail-farcio a'i safoni â gwaith myfyriwr eraill. Dylai'r gwaith gael ei asesu gan asesydd cymwys priodol nad ydyw wedi addysgu'r myfyriwr ac nad oes ganddynt ddiddordeb personol yng nghanlyniadau'r myfyriwr.
- 2.6. Bydd pob myfyriwr yn cael gwybod am ganlyniad yr apêl yn ysgrifenedig cyn cyflwyno'r

marciau.

3. Proses Apelio i Fyfyrrwyr [Cyhoeddiad Ôl Corff Dyfarnu]

- 3.1. Nid yw pob gwaith cwrs yn cael ei farcio'n fewnol ac felly nid yw mynediad at farciau/graddau dangosol bob amser yn bosibl.
- 3.2. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â chymwysterau TGAU a Safon Uwch ac â rhywfaint o ddarpariaeth alwedigaethol a gyflwynir, er enghraifft, trwy'r llwybr Cymhwyster Technegol neu sy'n cael Asesiad Pwynt Terfyn.
- 3.3. Nid yw hyn yn atal y dysgwr rhag apelio yn erbyn y marc/gradd a ddyfarnwyd ond bydd angen iddynt ddilyn y canllawiau a ddarperir gan y corff dyfarnu unigol.
- 3.4. Ni all dysgwyr apelio'n uniongyrchol, rhaid i'r coleg wneud hyn ar ran y dysgwyr a rhaid i'r coleg eu cynorthwyo.
- 3.5. Mae'n bosib y bydd rhaid talu ffi am apeliadau a wneir i gorff dyfarnu (tua £50, gwiriwch cyn cyflwyno).
- 3.6. Os nad yw'r dysgwr yn fodlon gyda chanlyniad apêl i'r corff dyfarnu, mae rhai yn darparu cyfle i uwchgyfeirio'r apêl at adolygydd annibynnol.
- 3.7. Eto byddai ffi yn daladwy pe gofynnir am adolygiad annibynnol (tua £100, gwiriwch cyn cyflwyno).

4. Proses Apelio i Fyfyrrwyr [Covid] - Gradd Heb ei Rhannu gyda'r Dysgwr

- 4.1. Yn ystod y pandemig gwnaeth y Llywodraeth ganslo arholiadau allanol a rhai asesiadau sgiliau.
- 4.2. Gwnaeth y cyrff dyfarnu a'r cyrff rheoleiddio Cymru a Lloegr ganiatáu addasiadau a chyflwynwyd barnau proffesiynol i bennu marc/graddau i ddysgwyr.
- 4.3. Roedd y radd a ddyfarnwyd yn farn gyfannol, yn seiliedig ar dystiolaeth asesu fewnol ac allanol (lle bo'n berthnasol) ac unrhyw dystiolaeth amgen.
- 4.4. Fel canllaw, gall dysgwyr apelio yn erbyn canlyniad a gyfrifwyd ar yr amodau canlynol yn unig:
 - 4.4.1. Nid yw'r corff dyfarnu wedi cymhwyso gweithdrefnau cyhoeddiedig yn gyson;
 - 4.4.2. Nid yw'r corff dyfarnu wedi dilyn gweithdrefnau cyhoeddiedig yn gywir nac yn deg;
 - 4.4.3. Mae'r corff dyfarnu wedi defnyddio'r data anghywir; neu
 - 4.4.4. Mae'r corff dyfarnu wedi darparu canlyniad yn anghywir.
- 4.5. Mae'r meini prawf apelio fel sydd wedi'u hamlinellu yn 4.4 yn ddangosol a bydd angen eu hadolygu cyn gwneud apêl.
- 4.6. Ni ellir apelio ar y sail bod dyfarniadau proffesiynol tiwtoriaid a chanolfannau yn anghywir.
- 4.7. Fel gyda phob apêl i gorff dyfarnu caiff y dysgwr eu hatal rhag apelio'n uniongyrchol.

5. Proses Apelio i Fyfyrrwyr [Covid] - Gradd yn cael ei Rhannu gyda'r Dysgwr Cyn Cyflwyno i'r Corff Dyfarnu

- 5.1. Os yw'n unol ag arweiniad gan Ofqual/QW, mae gan ddysgwyr yr hawl i wybod canlyniad eu cwrs a asesir yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r cyrff dyfarnu.
- 5.2. Mae'n rhesymol awgrymu bod yn rhaid cwblhau'r holl safoni a safoni mewnol, a rhoi gwybod i'r dysgwyr eu marciau/graddau o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiadau cau allanol ar gyfer cyflwyno i gyrff dyfarnu allanol [neu'n gynt yn dibynnu ar ofynion y corff dyfarnu](#).
- 5.3. Os yn unol ag arweiniad gan y JCQ/QW, mae gan ddysgwyr hawl i wybod canlyniad eu cwrs a asesir yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r cyrff dyfarnu.
- 5.4. Mae gan ddysgwyr 5 diwrnod gwaith i apelio yn erbyn eu marciau/graddau yn dilyn hysbysiad gan eu hathro pwnc.

- 5.5. Mae'n rhaid i ddysgwyr allu cyrchu copi o'u gwaith wedi'i farcio, i'r fanyleb berthnasol a dogfennau pwnc penodol cysylltiedig i'w helpu nhw i benderfynu a ydynt yn dymuno apelio.
- 5.6. Bydd angen i'r dysgwyr gyflwyno eu hapêl drwy'r cofnod apelïadau canolog a gedwir gan Ansawdd gan amlinellu pam eu bod yn teimlo eu bod wedi bodloni'r meini prawf asesu y tu hwnt i'r marciau a ddyrannwyd.
- 5.7. Bydd Pennaeth Cynorthwyl y maes yn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chasglu o fewn 5 diwrnod gwaith ac mae'r adran yn gwneud ei hargymhelliad i banel o reolwyr sy'n gorfod cynnwys o leiaf un rheolwr o Ansawdd.
- 5.8. Unwaith y bydd y panel wedi cyfarfod a chadarnhau'r radd/dyfarniad cywir, rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr o fewn 2 ddiwrnod gwaith.

6. Proses Apelio i Fyfyrrwyr - Canllawiau i Fyfyrrwyr

- 6.1. Pan fydd eich gwaith yn cael ei farcio ar gyfer darn o waith cwrs arholiad, a fydd yn rhan o farciau eich cymhwyster terfynol, caniateir i chi apelio os rydych yn teimlo nad yw'r marc a ddyrannwyd yn cyfateb i'r gwaith a gynhyrchwyd yn seiliedig ar y wybodaeth yn y fanyleb.
- 6.2. I wneud hyn, bydd y Coleg yn sicrhau eich bod yn cael marciau eich gwaith cwrs o leiaf pythefnos (10 diwrnod gwaith) cyn y bydd yn rhaid iddynt eu hanfon i'r ganolfan arholi.
- 6.3. Unwaith y byddwch wedi cael marciau eich gwaith cwrs gallwch edrych ar yr asesiad a farciwyd a chymharu'r marc a ddyrannwyd ar gyfer y gwaith yn ofalus â'r fanyleb, y grid graddio ac unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r asesiad. Bydd hyn yn caniatáu ichi benderfynu a yw'r marc yn gynrychiolaeth deg gan ddefnyddio'r wybodaeth yng nghanllawiau'r cwrs.
- 6.4. Yn dilyn unrhyw apêl, byddwch yn ymwybodol y bydd y gwaith cwrs yn cael ei safoni'n allanol gan y ganolfan arholi hefyd ac mae'n bosibl y bydd y sgorau a roddir yn newid, felly dim ond rhai dros dro yw'r sgorau a ddyrennir gan staff.
- 6.5. Os nad ydych yn cytuno gyda'r marc ac yn dymuno gwneud apêl, mae gennych 5 diwrnod gwaith i gwblhau'r ffurflen apelio gan nodi pam ydych yn teimlo eich bod chi wedi bodloni'r meini prawf asesu y tu hwnt i'r marciau a ddyrannwyd.
- 6.6. Byddwch yn cael gwybod am ganlyniadau'r apêl yn ysgrifenedig.

7. Ffurflen Apelio

- 7.1. Bydd y Gyfarwyddiaeth Ansawdd yn cadw cofrestr ganolog o apelïadau a gaiff ei monitro i sicrhau bod adrannau'n bodloni'r amserlenni gofynnol.
- 7.2. Gallwch gyrchu'r ffurflen yma [[Link to Appeals Form](#)] neu drwy'r Ap Myfyrrwyr.

8. Dolenni

- 8.1. ¹Dolen i Ofqual - Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholïadau (Ofqual) yn rheoleiddio cymwysterau, arholïadau ac asesiadau yn Lloegr.
- 8.2. ¹Dolen i Gymwysterau Cymru - Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru.